

TASG ASESU « LES VACANCES » (GWYLIAU)




Mae gen ti **RYDDID** i ddewis **SUT** rwyt ti eisiau cyflwyno dy waith.

Dyma rai syniadau:

Ffilm | **Podlediad** (*Podcast*) | **Cyflwyniad Adobe Spark** | **Cyfweliad** | **Sgript rhaglen deledu** |
Cyflwyniad PowerPoint | **Llythyr** | **Blog** | **Ebost** | **Pamffled** | **Dyddiadur** | **Cyflwyniad llafar wedi'i recordio ar Zoom** | ... Bydd yn **GREADIGOL!** Defnyddia dy **DDYCHYMYG!**

DEFNYDDIA'r rhestr wirio isod er mwyn sicrhau dy fod yn cyflawni'r MEINI PRAWF LLWYDDIANT:

	Cyflwyno fi fy hun:	
1	Enw	
2	Oed	
3	Penblwydd	
4	Teulu	
5	Anifeiliaid	
6	Lle rydw i'n byw	
7	Disgrifio fy nhref	
8	Beth dw i'n hoffi/casáu gwneud yn ystod fy amser hamdden	
	Siarad am wyliau:	
9	Dweud sut fath o wyliau rydw i'n caru/casáu	
10	Dweud beth dw i'n hoffi gwneud ar fy ngwyliau	
11	Dweud sut fath o dywydd dw i'n hoffi/casáu	
12	Siarad am drafnidiaeth (<i>transport</i>)	
13	Dweud pa wledydd hoffwn i ymweld â nhw yn y dyfodol	
	Er mwyn ennill Lefel 4 mae'n rhaid imi:	
1	Ysgrifennu mewn paragraffau	
2	Gwirio CYWIRDEB fy iaith	
3	Defnyddio Ffrangeg CYFARWYDD (h.y. beth dw i wedi dysgu yn y gwersi)	
	Er mwyn ennill Lefel 5 mae'n rhaid imi:	
1	Ysgrifennu NIFER o baragraffau	
2	Ail ddrafftio gwaith er mwyn gwella'r safon	
3	Defnyddio geiriau cysylltu fel 'ac', 'ond', 'weithiau' neu 'fel arfer' er mwyn adeiladu brawddegau hirach	
	Er mwyn ennill Lefel 6 mae'n rhaid imi:	
1	Ysgrifennu'n ESTYNEDIG ac yn GYWIR	
2	Defnyddio GEIRIADUR neu WEFAN er mwyn dod o hyd i bethau newydd i'w dweud	
3	Defnyddio'r Amser Dyfodol NEU Yr Amser Gorffennol	
	Er mwyn ennill Lefel 7 mae'n rhaid imi:	
1	Defnyddio strwythurau iaith gwahanol, gan gynnwys Y Presennol, Y Dyfodol a'r Gorffennol	
2	Ceisio defnyddio iaith fwy soffistigedig sy'n creu argraff ardderchog (h.y. iaith neu frawddegau hir a chymhleth dydych chi DDIM wedi dysgu yn y gwersi)	
3	Mynegi a chyfiawnhau barn	

